

Tuag at gysondeb: archwilio darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws rhwydwaith darparwyr

Jackie Beckett a Julian Ayres
Coleg Sir Benfro a Phrifysgol Wrecsam

CRYNODEB

Mae'r erthygl hon yn adrodd ar astudiaeth ansoddol a gynhaliwyd o fewn rhwydwaith o ddarparwyr prentisiaethau sy'n darparu cymwysterau iechyd a gofal ledled Cymru. Er bod llawer o brentisiaid yn dechrau gyda sgiliau Cymraeg, canfu monitro mewnol mai dim ond lleiafrif a gwblhaodd eu prentisiaeth yn ddwyieithog neu'n Gymraeg, gan adlewyrchu'r gyfradd gwblhau genedlaethol o ddim ond 32 y cant (Stats Cymru, 2025). Roedd hyn yn destun pryder sylweddol o ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, a'r angen i'r gweithlu iechyd a gofal fodloni Safonau'r Gymraeg a darparu'r Cynnig Rhagweithiol. Felly, cynhaliwyd yr astudiaeth i ddeall sut roedd prentisiaethau dwyieithog yn cael eu dehongli o fewn y rhwydwaith ac i ymchwilio i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau iaith prentisiaid.

Gwnaed dadansoddiad thematig o gyfweiliadau lled-strwythuredig gydag ymarferwyr a phrentisiaid sy'n siarad Cymraeg. Datgelodd y canfyddiadau ddehongliadau wedi'u harwain gan ddysgwyr o ddarpariaeth ddwyieithog, anghysondebau mewn diffiniadau sefydliadol, a dylanwad sylweddol hyder staff, diwyllianau iaith yn y gweithle, ac ofnau prentisiaid ynghylch Cymraeg ysgrifenedig. Mae'r erthygl yn nodi goblygiadau ar gyfer gwelliannau sefydliadol ac yn cyfrannu mewnwelediadau sector cyfan i gryfhau llwybrau prentisiaeth cyfrwng Cymraeg.

Geiriau allweddol: prentisiaethau dwyieithog; cyfrwng Cymraeg; trawsieithu; iechyd a gofal; dewis dysgwyr

Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon o fewn rhwydwaith mawr o ddarparwyr prentisiaethau sy'n gyfrifol am ddarparu cymwysterau iechyd a gofal ledled Cymru. Fodd bynnag, datgelodd prosesau sicrhau ansawdd mewnol broblem barhaus: er gwaethaf polisi Cymraeg cryf a nifer sylweddol o brentisiaid sy'n dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, roedd y niferoedd a oedd yn dewis dilyn llwybrau cyfrwng Cymraeg o fewn y rhwydwaith yn parhau i fod yn isel. Dim ond nifer fach o brentisiaid a ddewisodd gwblhau eu prentisiaeth yn y Gymraeg, ac roedd y nifer a gwblhaodd mwy na nifer fach o asesiadau yn ddwyieithog hyd yn oed yn llai.

O ystyried pwysigrwydd y Gymraeg i ofal sy'n canolbwyntio ar y person, gofynion y Cynnig Rhagweithiol (Llywodraeth Cymru, 2021), a disgwyliadau ehangach ar gyfer datblygu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2024), ceisiodd yr astudiaeth ymchwilio i sut roedd prentisiaethau dwyieithog yn cael eu deall o fewn y rhwydwaith, sut roeddent yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, a beth oedd yn dylanwadu ar benderfyniadau prentisiaid ynghylch yr iaith y gwnaethant gwblhau eu cymwysterau ynddi.

Adolygiad Llenyddiaeth

Mae'r cyd-destun polisi sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru yn helaeth ac yn gynyddol ganolog i gynllunio'r gweithlu cenedlaethol. Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg a chyflwyno Safonau'r Gymraeg, gan osod dyletswyddau cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael. Felly, mae darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 yn chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu gweithlu sy'n gallu bodloni'r gofynion statudol hyn. Mae'r rhwymedigaeth hon yn cael ei hatgyfnerthu trwy Mwy na geiriau: Y Cynnig Rhagweithiol (Llywodraeth Cymru, 2021), sy'n sefydlu'r egwyddor y dylid cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol yn hytrach nag ar gais yn unig. Mae'r uchelgais strategol a nodir yn Cymraeg 2050 yn cadarnhau ymhellach fod y sector ôl-16 a sgiliau yn un hanfodol wrth gynnal defnydd y Gymraeg y tu hwnt i addysg orfodol ac i mewn i gyflogaeth, gan alinio'r polisi iaith yn uniongyrchol â chyflogadwyedd a datblygu'r gweithlu.

Er gwaethaf y fframwaith polisi hwn, mae Estyn (2008; 2017; 2025) wedi adrodd dro ar ôl tro bod cyfleoedd i ddysgwyr barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ôl-16 yn gyfyngedig ac wedi'u dosbarthu'n anwastad ledled Cymru. Mae Comisiynydd y Gymraeg (2016; 2023) yn tynnu sylw at doriad clir mewn parhad ieithyddol wrth drosglwyddo o'r ysgol i lwybrau galwedigaethol, lle mae'r Gymraeg yn dod yn llai gweladwy ac yn llai tebygol o gael ei hymgorffori fel mater o drefn. Mae'r amhariad hwn yn gysylltiedig â llai o hyder ymhlith dysgwyr a niferoedd is yn dilyn llwybrau cyfrwng Cymraeg o fewn prentisiaethau (Pierce, 2023), gan danseilio'r uchelgais polisi i normaleiddio'r Gymraeg ar draws addysg a hyfforddiant.

Mater strwythurol allweddol sy'n sail i'r anghysondeb hwn yw'r diffyg diffiniad gweithredol cyffredin o ddarpariaeth ddwyieithog. Er bod fframweithiau prentisiaethau yn aml yn nodi y dylai dysgu neu asesu fod ar gael yn Gymraeg, mae'r disgwyliadau hyn fel arfer yn cael eu mynegi mewn termau eang ac yn cael eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol gan ddarparwyr. Canfu Estyn (2017) fod ymarferwyr yn aml yn ansicr ynglŷn â'r hyn a oedd yn ymarfer dwyieithog ystyrlon mewn prentisiaethau. Mae hyn yn adlewyrchu beirniadaeth hirsefydlog gan Williams (2000) a dadansoddiad mwy diweddar gan Davies (2021), sy'n nodi amwysedd parhaus yn y ffordd y mae dwyieithrwydd yn cael ei gysyniadoli a'i weithredu o fewn addysg Gymraeg.

Mae trawsieithu yn cael ei nodi fel dull effeithiol mewn cyd-destunau ieithoedd lleiafrifol, gan alluogi dysgwyr i fod yn hyblyg yn eu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg i gefnogi dealltwriaeth ac asesu (Lewis et al., 2012; Cenoz a Gorter, 2022). Mae Estyn (2025) yn adrodd bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg cryfach yn gysylltiedig â defnydd systematig o strategaethau trawsieithu. Fodd bynnag, mae'r dull addysgegol hwn yn dibynnu ar hyder ieithyddol staff. Mae data'r gweithlu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (2024) yn dangos mai nifer cymharol fach o ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith sy'n teimlo'n hyderus i addysgu neu asesu'n ddwyieithog.

Mae ymchwil gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2018) a Pierce (2023) yn dangos bod hyd yn oed siaradwyr Cymraeg rhugl yn aml yn dewis cwblhau asesiadau yn Saesneg oherwydd pryderon am gywirdeb ysgrifenedig a risg academiaidd ganfyddedig. Mae mewnwelediadau ymddygiadol gan Davies (2021) yn awgrymu bod effeithiau fframio hefyd yn dylanwadu ar ddewis: pan gyflwynir darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel darpariaeth arferol a disgwyliedig, mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn cynyddu; pan gaiff ei chyflwyno fel opsiwn dewisol, Saesneg yw'r dewis diodyn.

Gan fod prentisiaethau yn brif lwybr mynediad i'r sector hwn, mae cryfhau'r ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth addysgol ac yn hanfodol i ansawdd y gweithlu.

Methodoleg

Moeseg

Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr astudiaeth hon gan bwyllgor moeseg Prifysgol Wrecsam. Cadwodd yr ymchwil at egwyddorion moesegol sefydledig ar gyfer ymchwil addysgol, gan gynnwys cydsyniad gwybodus, cyfranogiad gwirfoddol, cyfrinachedd ac amddiffyn cyfranogwyr rhag niwed (Cohen et al., 2011; Denscombe, 2010). Arweiniwyd ymarfer moesegol hefyd gan y fframwaith moesegol ar gyfer ymchwil addysgol a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Ymchwil Addysg Prydain, sy'n pwysleisio parch at bersonau, tryloywder o ran dibenion ymchwil a rheoli data'n gyfrifol (BERA, 2024).

Rhoddwyd Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr a ffurflen ganiatâd i'r holl gyfranogwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd y dogfennau hyn yn amlinellu pwrpas yr astudiaeth, natur cyfranogiad, defnyddio a storio data, a'r hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb ddarparu rheswm (Bell a Walters, 2014; Denscombe, 2010). Cafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn cymryd rhan, ac ail-gadarnhawyd cydsyniad ar lafar ar ddechrau pob cyfweiliad.

Sicrhawyd cyfrinachedd ac anhysbysrwydd trwy ddefnyddio ffugenwau a chodau cyfranogwyr ar y pwynt trawsgrifio. Ni chafodd unrhyw fanylion y gellid eu defnyddio i adnabod sefydliadau neu unigolion eu defnyddio wrth adrodd ar ganfyddiadau. Cafodd recordiadau a thrawsgrifiadau cyfweiliadau eu storio ar systemau sefydliadol wedi'u diogelu gan gyfrinair, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r ymchwilydd. Roedd prosesau rheoli data yn adlewyrchu canllawiau moesegol ar storio data ansoddol yn ddiogel a'i drin yn gyfrifol (Cohen et al., 2011).

O ystyried rôl broffesiynol yr ymchwilydd o fewn y rhwydwaith darparwyr, rhoddwyd sylw moesegol arbennig i ddynwedd pŵer a'r risg y gallai cyfranogwyr ystyried bod yr ymchwil yn broses werthuso. Cafodd yr astudiaeth ei fframio'n benodol fel un archwiliadol a datblygiadol yn hytrach na beirniadol. Rhoddwyd sicrwydd i gyfranogwyr na fyddai eu hymatebion yn cael eu rhannu â rheolwyr ac na

fyddent yn dylanwadu ar brosesau sicrhau ansawdd. Cynhaliwyd ymarfer atgyrchol trwy gydol yr ymchwiliad i fonitro sefyllfa'r ymchwilydd a'r dylanwad posibl ar gasglu a dehongli data (Guillemin a Gillam, 2004; Hammersley et al., 2001).

Gweithdrefn Samplu a Disgrifiad

Defnyddiodd yr astudiaeth samplu pwrpasol i recriwtio cyfranogwyr sydd â phrofiad uniongyrchol o ddarparu prentisiaethau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg neu gymryd rhan ynddynt. Roedd y sampl yn cynnwys deg cyfranogwr o rwydwaith prentisiaethau aml-ddarparwr sy'n gweithredu ledled Cymru. Roedd y rhwydwaith hwn yn cynnwys sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith annibynnol sy'n darparu cymwysterau iechyd a gofal ar Lefelau 2 i 5. Dewiswyd y rhwydwaith oherwydd bod adolygiadau ansawdd mewnol wedi nodi ymarfer cyfrwng Cymraeg anghyson a defnydd isel ymhlith prentisiaid sy'n siarad Cymraeg, gan ei wneud yn lleoliad ymchwiliad perthnasol gyda chyfoeth o wybodaeth.

O'r deg cyfranogwr, roedd pump yn ymarferwyr a phump yn brentisiaid. Roedd y grŵp ymarferwyr yn cynnwys tri aelod o staff Cymraeg a dau aelod o staff Saesneg eu hiaith. Roedd pob ymarferydd yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno neu asesu prentisiaethau iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal plant. Roedd y grŵp prentisiaid yn cynnwys pum dysgwr Cymraeg eu hiaith sy'n ymgymryd â phrentisiaethau o fewn y fframweithiau hyn ar hyn o bryd. Roedd y cyfansoddiad hwn yn galluogi cymhariaeth rhwng dealltwriaeth ymarferwyr o ddarpariaeth ddwyieithog a phrofiadau dysgwyr o ddewis a chyfranogiad.

Mae'r maint sampl bach yn gyson â natur archwiliadol yr astudiaeth. Fel y mae Denscombe (2010) yn nodi, mae astudiaethau ansoddol ar raddfa fach yn blaenoriaethu dyfnder dealltwriaeth dros ehangder cynrychiolaeth. Er na ellir ystyried y sampl yn ystadegol gynrychioliadol o'r sector prentisiaethau ehangach yng Nghymru, roedd yn ddigon i gynhyrchu data ansoddol cyfoethog ac i nodi patrymau ar draws adroddiadau cyfranogwyr (Cohen et al., 2011).

Cynhyrchu a Dadansoddi Data

Mabwysiadodd yr astudiaeth fethodoleg ansoddol, ddeongliadol, sy'n briodol ar gyfer archwilio sut roedd unigolion o fewn y rhwydwaith darparwyr yn deall

prentisiaethau dwyieithog a sut roedd y ddealltwriaeth honno'n siapio ymarfer (Pham, 2018). Mae deongliadaeth yn cymryd yn ganiataol bod gwybodaeth yn cael ei llunio trwy ryngweithio cymdeithasol a bod ystyron yn cael eu siapio gan gyd-destun. Mae'r sefyllfa epistemolegol hon yn cyd-fynd â ffocws yr astudiaeth ar naratifau ymarferwyr a phrentisiaid, sy'n rhoi mewnwelediad i ganfyddiadau, profiadau a phrosesau gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cael eu cofnodi trwy ddulliau meintiol (Pierce, 2023; Pham, 2018).

Cynhyrchwyd data trwy gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda'r deg cyfranogwr. Dewiswyd cyfweiliadau lled-strwythuredig gan eu bod yn darparu dull hyblyg ond systematig o archwilio safbwyntiau cyfranogwyr, gan alluogi'r ymchwilydd i archwilio themâu allweddol tra hefyd yn caniatáu i gyfranogwyr gyflwyno materion o berthnasedd personol (Cohen et al., 2011; Bell a Walters, 2014; Hammersley et al., 2001).

Dilynodd y gwaith dadansoddi data ddull dadansoddi thematig atgyrchol, casgliadol wedi'i lywio gan fframwaith chwe cham Braun a Clarke. Roedd hyn yn cynnwys ymgyfarwyddo dro ar ôl tro â thrawsgrifiadau, codio systematig unedau ystyrlon o ddata, datblygu a mireinio themâu, a syntheseiddio themâu i naratif dadansoddol. Roedd dull casgliadol yn briodol o ystyried natur archwiliadol yr astudiaeth ac absenoldeb fframwaith cysyniadol sefydlog ar gyfer diffinio darpariaeth ddwyieithog mewn prentisiaethau (Denscombe, 2010; Byrne, 2022).

Canlyniadau a Thrafodaeth

Mae canlyniadau'r astudiaeth yn nodi pedair thema ganolog sy'n tynnu sylw at sut y mae diffiniadau, ymarfer staff, hyder dysgwyr a staff, a diwylliannau yn y gweithle yn rhyngweithio i lunio'r cyfleoedd sydd ar gael i brentisiaid. Mae'r canfyddiadau hyn yn datgelu cryfderau a chyfyngiadau'r ddarpariaeth bresennol ac yn helpu i esbonio'r lefelau cyson isel o gyfranogiad cyfrwng Cymraeg.

Deall a Diffinio Prentisiaethau Dwyieithog: Tirwedd Hyblyg ond Darniog

Roedd y brif thema gyntaf i ddod i'r amlwg o'r astudiaeth yn ymwneud â sut y diffiniwyd prentisiaethau dwyieithog ar draws y rhwydwaith darparwyr. Cafodd darpariaeth ddwyieithog ei disgrifio dro ar ôl tro gan ymarferwyr fel 'hyblyg',

'ymatebol', neu 'dan arweiniad y prentis', ond ychydig a oedd yn gallu cynnig diffiniad clir neu gyson o'r hyn y dylai darpariaeth o'r fath ei gynnwys.

Fodd bynnag, cynhyrchodd yr hyblygrwydd hwn sy'n canolbwyntio ar y dysgwr amrywiaeth sylweddol rhwng darparwyr a hyd yn oed rhwng aseswyr o fewn yr un sefydliad. Roedd rhai ymarferwyr yn ystyried unrhyw ddefnydd o'r Gymraeg, megis sgysiau anffurfiol, trafodaethau annog, neu gyfarchion, fel tystiolaeth o gyflwyno dwyieithog. Roedd eraill yn teimlo bod prentisiaethau dwyieithog yn gofyn am gyfran strwythuredig, wedi'i chynllunio o asesu cyfrwng Cymraeg. Roedd y gwrthgyferbyniadau hyn yn arwyddocaol oherwydd eu bod yn siapiro realiti dyddiol dysgu: roedd prentisiaid mewn gwahanol rannau o'r rhwydwaith yn profi modelau sylfaenol wahanol o ddarpariaeth 'ddwyieithog'.

Mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu ymchwil genedlaethol gan Estyn (2017; 2025), sy'n nodi'r diffyg diffiniad cyson o ddwyieithrwydd fel rhwystr systemig. O fewn y rhwydwaith, roedd absenoldeb iaith gyffredin yn golygu bod ymarfer prentisiaeth dwyieithog wedi esblygu'n organig ac yn anghyson. Felly, nid oedd prentisiaid a oedd yn ymuno â'r rhaglen yn cael esboniad clir o'r hyn yr oedd llwybrau dwyieithog yn ei olygu, a soniodd llawer am ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a ddisgwyliod pe baent yn dewis cwblhau elfennau o'u cymhwyster yn y Gymraeg.

Mae'r amwysedd hwn yn broblem benodol mewn amgylcheddau prentisiaeth, lle mae dysgu yn rhychwantu sawl lleoliad gan gynnwys gweithleoedd, sesiynau i ffwrdd o'r swydd, ymweliadau aseswyr, llwyfannau ar-lein ac adolygiadau. Heb ddiffiniad unedig, mae ymarfer dwyieithog yn dibynnu ar yr ymarferydd unigol yn hytrach na'i fod wedi'i ymgorffori yn y system. O ganlyniad, mae Saesneg yn dod yn iaith ddiofyn de facto, hyd yn oed pan fydd gan ddysgwyr y gallu ieithyddol i weithio'n ddwyieithog.

Amgylcheddau Dysgu Dwyieithog: Amrywiaeth wedi'i siapiro gan allu a hyder staff

Roedd ail thema yn tynnu sylw at rôl dyngedfennol gallu ieithyddol staff wrth lunio'r amgylchedd dysgu dwyieithog. Dangosodd staff Cymraeg eu hiaith ar draws y rhwydwaith lefelau uchel o hyder wrth ymgorffori'r Gymraeg yn eu hymarfer. Disgrifiwyd defnyddio Cymraeg yn anffurfiol yn ystod ymweliadau â'r gweithle, ymgorffori terminoleg ddwyieithog mewn sgysiau addysgu, a darparu cyfleoedd ar gyfer trawsieithu gan ganiatáu i brentisiaid symud yn rhwydd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn dibynnu ar ofynion tasgau. Mae'r arferion hyn yn cyd-fynd â'r dulliau

trawsieithu a ddisgrifir gan Lewis et al. (2012) a Cenoz and Gorter (2022) ac yn adlewyrchu sylfaen addysgegol gref.

Ond nid oedd y darlun cadarnhaol hwn yn wir am bob darparwr. Roedd ymarferwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn mynegi eu bod yn anghysurus ynglŷn â'u gallu i gefnogi dysgu dwyieithog yn effeithiol. Nid oedd gan lawer hyder mewn ynganu terminoleg Gymraeg, asesu gwaith cyfrwng Cymraeg, neu roi adborth ysgrifenedig ar dasgau a gwblhawyd yn Gymraeg. Hyd yn oed lle'r oedd deunyddiau dwyieithog yn bodoli, roedd staff yn aml yn osgoi eu defnyddio oherwydd eu bod yn teimlo'n nad oeddent wedi'u paratoi ddigon i wneud hynny. Mewn rhai achosion, cyfaddefodd ymarferwyr eu bod yn 'gobeithio' y byddai prentisiaid yn dewis cwblhau asesiadau yn Saesneg oherwydd ei fod yn dileu'r pwysau canfyddedig arnynt hwy fel aseswyr.

Roedd prentisiaid a oedd yn cael eu cefnogi gan aseswyr Cymraeg yn aml yn disgrifio eu profiad fel un calonogol a chadarnhaol yn ddiwylliannol. Dywedodd y rhai sy'n gweithio gydag aseswyr nad ydynt yn siarad Cymraeg fod eu cyfleoedd yn 'gyfyngedig' neu 'ddim yn bodoli', hyd yn oed pan oeddent yn fodlon neu'n gallu cwblhau elfennau o'r rhaglen yn Gymraeg.

Profiadau Prentisiaid: Hyder, dysgu blaenorol, a phwysau emosiynol Cymraeg ysgrifenedig

Datgelodd adroddiadau'r prentisiaid ryngweithio cymhleth rhwng hunaniaeth, hyder, a hanes addysgol. Roedd yr holl brentisiaid a gyfwelwyd yn uniaethu'n gryf fel siaradwyr Cymraeg ac yn mynegi balchder yn eu treftadaeth ieithyddol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am gwblhau asesiadau yn Gymraeg, roedd pob un ohonynt yn cydnabod ymdeimlad o bryder. Roedd hyn wedi'i wreiddio nid yn eu gallu i siarad Cymraeg, ond yn eu hofnau am ei hysgrifennu i safon broffesiynol.

Trafododd nifer o brentisiaid profiadau addysgol blaenorol, gan gynnwys effaith bylchau mewn dysgu a newid gyrfa i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, a oedd wedi eu gadael yn teimlo nad oeddent yn ddigon abl i ysgrifennu yn y Gymraeg. Er eu bod wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, roeddent yn teimlo nad oedd eu Cymraeg ysgrifenedig wedi cael ei meithrin yn ddigonol i roi hyder iddynt wrth gwblhau tasgau technegol neu fyfyrïol. Fel y dywedodd un prentis, 'Rwy'n gallu siarad Cymraeg drwy'r dydd, ond mae ysgrifennu Cymraeg yn teimlo fel arholiad dwi heb adolygu ar ei gyfer'.

Mae'r dimensiwn emosiynol hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Pierce (2023) ac arolwg dysgwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2018, a ganfu yn yr un modd fod dysgwyr yn aml yn gweld Saesneg fel y dewis academaidd 'mwy diogel'. O fewn prentisiaethau, lle mae asesiadau'n dylanwadu'n uniongyrchol ar wneud cynnydd yn y byd gwaith, mae'r diogelwch canfyddedig hwn yn dod hyd yn oed yn bwysicach. Soniodd prentisiaid am ddewis Saesneg nid oherwydd nad oedd ganddynt gymhwysedd yn y Gymraeg, ond oherwydd eu bod yn ofni y gallai gwaith cyfrwng Cymraeg eu harafu a allai effeithio ar eu cymhwyster.

Dylanwadodd diwylliant y gweithle ymhellach ar eu penderfyniadau. Roedd prentisiaid sy'n gweithio mewn lleoliadau lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n aml gan gydweithwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ceisio gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd eraill, sy'n gweithio mewn amgylcheddau gyda'r Saesneg yn flaenllaw, yn teimlo nad oedd defnyddio'r Gymraeg 'yn ffitio' yng nghyd-destun y gweithle.

Disgrifiodd un prentis sut roedd siarad Cymraeg gyda defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei werthfawrogi'n anffurfiol, ond bod y Gymraeg yn absennol o ddogfennaeth sefydliadol neu gyfathrebu o fewn y tîm. Roedd hyn yn gwneud i gwblhau asesiadau ffurfiol yn Gymraeg deimlo'n anghyson â realiti eu diwrnod gwaith.

Strwythurau Sefydliadol a'u dylanwad ar y niferoedd sy'n dilyn prentisiaethau cyfrwng Cymraeg

Rhwysr strwythurol arall oedd amserlennu a llwyth gwaith. Nododd ymarferwyr fod cynhyrchu adnoddau dwyieithog neu asesu gwaith cyfrwng Cymraeg yn ychwanegu at eu llwyth gwaith mewn ffyrdd nad oeddent bob amser yn cael eu cydnabod gan reolwyr. O ganlyniad, roedd rhai staff yn osgoi annog dysgwyr i ddewis asesiad cyfrwng Cymraeg, gan gyfrannu at y niferoedd isel a welwyd mewn data mewnol.

Pam mae'r niferoedd yn parhau i fod yn isel yn y rhwydwaith

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos bod cyfranogiad mewn prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn cael ei siapio gan ystod o ffactorau rhyng-gysylltiedig: diffiniadau aneglur, gallu staff anghyson, diwylliannau gweithle anghyson, pryderon

dysgwyr, a systemau sefydliadol nad ydynt yn normaleiddio llwybrau cyfrwng Cymraeg yn weithredol.

Er bod dull hyblyg, dan arweiniad dysgwyr, y rhwydwaith yn gefnogol mewn egwyddor, mae wedi caniatáu i anghysondebau fwrw gwreiddiau. Mae prentisiaid sy'n dechrau arni gyda'r potensial i weithio'n ddwyieithog yn aml yn newid i Saesneg oherwydd bod Saesneg yn gyson haws, yn fwy diogel, neu'n fwy rhagweladwy. Heb aliniad systemig ar draws cyd-destunau darparwr, aseswr a gweithle, mae llwybrau cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn fregus ac yn ddibynnol iawn ar amgylchiadau unigol yn hytrach na dyluniad sefydliadol.

Casgliad

Wedi'i chynnal o fewn rhwydwaith mawr o ddarparwyr prentisiaethau iechyd a gofal yng Nghymru, mae'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at y ffactorau sefydliadol a lefel dysgwyr sy'n sail i'r niferoedd isel parhaus sy'n dilyn llwybrau cyfrwng Cymraeg. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod diffiniadau aneglur, amgylcheddau dwyieithog anghyson, gallu cyfyngedig staff a diffyg hyder prentisiaid yn y Gymraeg ysgrifenedig i gyd yn cyfyngu ar gyfranogiad ystyrlon. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am ddisgwyliadau sefydliadol cliriach, gwelliannau o ran datblygu'r gweithlu, ac ymgorffori arferion dwyieithog yn fwy bwriadol ar draws cyflwyno ac asesu. Bydd cryfhau hyder dysgwyr drwy addysgeg gefnogol ac opsiynau cyfrwng Cymraeg gweladwy hefyd yn hanfodol os yw'r rhwydwaith am gyflawni uchelgeisiau cenedlaethol ar gyfer gweithlu dwyieithog.

Cyfeiriadau

- Bell, J. a Walters, S. (2014). *Doing your research project: A guide for first-time researchers*. 6ed argraffiad, Maidenhead: Open University Press.
- Braun, V. a Clarke, V. (2006). 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), tt. 77–101.
- British Educational Research Association (2024) *Ethical guidelines for educational research*. 5ed argraffiad, London: BERA.
- Byrne, D. (2022). A worked example of Braun and Clarke's approach to reflexive thematic analysis, *Quality & Quantity*, 56, tt. 1391–412.

- Arolygiaeth Gofal Cymru (2020). Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia. Caerdydd: Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Cenoz, J. a Gorter, D. (2022). Pedagogical translanguaging and its application to language classes, *Language Teaching Research*.
- Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2011). *Research methods in education*. 7fed argraffiad, London: Routledge.
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2018). Learner attitudes towards Welsh-medium provision in Further Education and Work-based Learning – Executive summary. Cardiff: Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Comisiynydd y Gymraeg (2016). Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015. Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg.
- Comisiynydd y Gymraeg (2023). Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: Llais y Dysgwyr. Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg.
- Davies, L. B. (2021). Optio i mewn neu optio allan? Sut mae dewis cyfrwng iaith yn cael ei gyflwyno i ddysgwyr Addysg Bellach yng Nghymru a pha ddylanwad mae hyn yn ei gael ar eu dewisiadau?, *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 23(1).
- Denscombe, M. (2010). *The good research guide for small-scale social research projects*. 4ydd argraffiad, Maidenhead: Open University Press.
- Cyngor y Gweithlu Addysg (2024). Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) – ymateb CGA i'r ymgynghoriad. Caerdydd: Cyngor y Gweithlu Addysg.
- Estyn (2008). Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14–19 oed. Caerdydd: Estyn.
- Estyn (2017). Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach. Caerdydd: Estyn.
- Estyn (2025). Cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sectorau ôl-16: Gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'r sector addysg bellach a phrentisiaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Caerdydd: Estyn.
- Guillemin, M. a Gillam, L. (2004). Ethics, reflexivity, and 'ethically important moments' in research, *Qualitative Inquiry*, 10(2), tt. 261–80.
- Hammersley, M. ac Atkinson, P. (2001). *Ethnography: Principles in practice*. 2il argraffiad, London: Routledge.
- Lewis, G., Jones, B. a Baker, C. (2012). Translanguaging: origins and development from school to street and beyond, *Educational Research and Evaluation*, 18(7), tt. 641–54.
- Llywodraeth Cymru (2011). Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2017). Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2021). Mwy na geiriau: Y Cynnig Rhagweithiol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2024). Prentisiaethau: datganiad polisi. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- Patton, M. Q. (2002) *Qualitative research and evaluation methods*. 3ydd argraffiad, Thousand Oaks, CA: Sage.
- Pham, L. T. M. (2018). A review of key paradigms: positivism, interpretivism and critical inquiry. Preprint. ResearchGate.
- Pham, T. T. T. (2018). Qualitative research and interpretivism. In: *Understanding qualitative research in education*. London: Routledge.
- Pierce, A. R. (2023). The relationship between the Welsh language and higher education participation and experience. PhD thesis. Cardiff University.
- Pierce, M. (2023). Language choice and participation in post-compulsory education in Wales, *Journal of Bilingual Education Research*, 12(1), tt. 45–61.
- Stats Cymru (2025). Learning activities by medium of delivery and provider type in work-based learning. Cardiff: Welsh Government / Stats Cymru.
- Williams, C. (2000). Bilingual teaching and language distribution at 16+, *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 3(2), tt. 129–48.